# Y Pwyllgor Cyllid

## Cofnodion FIN (3)-12-08

**Dyddiad y cyfarfod: Dydd Iau 2 Hydref 2008**
**Amser y cyfarfod: 1.30 - 3.30 pm**
**Lleoliad y cyfarfod: Ystafell Bwyllgora 2**

### Aelodau'r Cynulliad yn Bresennol

Angela Burns (Cadeirydd), Gorllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro
Mohammad Asghar, Dwyrain De Cymru
Nick Bourne, Canolbarth a Gorllewin Cymru
Alun Davies, Canolbarth a Gorllewin Cymru
Chris Franks, Canol De Cymru
Ann Jones, Dyffryn Clwyd
Huw Lewis, Merthyr Tudful a Rhymni
Jenny Randerson, Canol Caerdydd
Joyce Watson, Canolbarth a Gorllewin Cymru

### Gwasanaeth y Pwyllgorau

John Grimes, Clerc
Abigail Phillips, Dirprwy Glerc

### Eraill yn Bresennol

**Eitem 2**

Yr Athro Brian Morgan, Ysgol Reolaeth Caerdydd, Prifysgol Cymru, Caerdydd
Jeremy Williams, Partner, Hugh James

**Eitem 3**

John Griffiths, Y Dirprwy Weinidog dros Sgiliau
Lynne M Hamilton, Cyfarwyddwr, Grŵp Gwella Busnes a Buddsoddi Adnoddau, Yr Adran Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau
Mark Leighfield, Pennaeth Llwybrau Dysgu 14-19

**Eitem 4**

Yr Arglwydd Dafydd Elis-Thomas, Cadeirydd y Comisiwn
Claire Clancy, Prif Weithredwr a Chlerc y Cynulliad
Dianne Bevan, Prif Swyddog Gweithredu
Steve O'Donoghue, Cyfarwyddwr Cyllid

### Eitem 1: Ymddiheuriadau a Dirprwyon

1.1 Ni chafwyd unrhyw ymddiheuriadau.

1.2 Croesawodd y Cadeirydd Huw Lewis a Chris Franks i'w cyfarfod cyntaf fel aelodau'r pwyllgor.

1.3 Trosglwyddodd y Cadeirydd neges i'r pwyllgor gan y cyn Aelod pwyllgor Alun Ffred Jones yn dweud cymaint yr oedd wedi mwynhau cyfarfodydd y Pwyllgor Cyllid ac yn diolch i staff y pwyllgor am eu cymorth a'u harweiniad. Diolchodd y Cadeirydd i Alun Ffred Jones am ei gyfraniad i'r Pwyllgor Cyllid dros y tymhorau diwethaf.

1.4 Diolchodd y Cadeirydd i aelodau'r Pwyllgor am eu hamynedd, eu hymrwymiad a'u goddefgarwch o ran dygymod â'r cyfarfodydd ychwanegol angenrheidiol yn ystod y gwaith craffu ar y gyllideb sydd ar ddod. Diolchodd y Cadeirydd hefyd i Gadeiryddion pwyllgorau eraill, yn arbennig Helen Mary Jones, Cadeirydd y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc, am newid eu hamserlenni er mwyn dygymod â chyfarfodydd ychwanegol y Pwyllgor Cyllid.

### Eitem 2: Ymchwiliad i Bartneriaethau Cyhoeddus-Preifat: tystiolaeth gan yr Athro Brian Morgan a Jeremy Williams

**Papur:**

FIN(3) 12-08 (p1) tystiolaeth ysgrifenedig a gyflwynwyd i'r Ymchwiliad i Bartneriaethau Cyhoeddus-Preifat gan Brian Morgan a Jeremy Williams

2.1 Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan yr Athro Brian Morgan a Jeremy Williams fel rhan o'u hymchwiliad i Bartneriaethau Cyhoeddus-Preifat.

### Eitem 3: Ystyried goblygiadau ariannol y Mesur Arfaethedig ynghylch Dysgu a Sgiliau (Cymru)

**Papur:**

FIN(3) 12-08 (p2) Y Mesur Arfaethedig ynghylch Dysgu a Sgiliau (Cymru)
FIN(3) 12-08 (p3) Y Mesur Arfaethedig ynghylch Dysgu a Sgiliau (Cymru) - memorandwm esboniadol
FIN(3) 12-08 (p4) Y Mesur Arfaethedig ynghylch Dysgu a Sgiliau (Cymru) - gwybodaeth ariannol

3.1 Clywodd y pwyllgor dystiolaeth gan y Dirprwy Weinidog dros Sgiliau am oblygiadau ariannol y Mesur Arfaethedig ynghylch Dysgu a Sgiliau (Cymru).

3.2 Cytunodd y Dirprwy Weinidog i ddychwelyd at y Pwyllgor yn ddiweddarach i drafod y mater ymhellach.

### Eitem 4: Cyllideb Ddrafft Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2009-10

4.1 Tynnodd Chris Franks yn ôl o'r drafodaeth ar yr eitem hon a gadawodd y cyfarfod gen ei fod yn teimlo fod ganddo fuddiannau a oedd yn gwrthdaro oherwydd ei aelodaeth o Gomisiwn y Cynulliad.

4.2 Clywodd y pwyllgor dystiolaeth gan Gadeirydd y Comisiwn, Clerc a Phrif Weithredwr y Cynulliad, y Cyfarwyddwr Gweithrediadau a'r Cyfarwyddwr Cyllid.

**Gwasanaeth y Pwyllgorau**
**Hydref 2008**